Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# RHEOLWR CYNLLUNIO A PHERFFORMIAD CORFFORAETHOL

### Adran Cynllunio, Perfformiad a Trawsnewid
### Parhaol, 37 awr yr wythnos,
### GTAGC Gradd 11 £49,764 - £52,805 y flwyddyn

Mae cyfle cyffrous wedi codi i Reolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol ymuno â'r adran Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.

Yr adran hon sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod y Gwasanaeth yn llwyddo i berfformio'n dda yn erbyn ei gynlluniau a'i amcanion strategol, gan gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynlluniau gwella a thrawsnewid strategol, asesiadau perfformiad, adroddiadau monitro a'r fframwaith rheoli prosiectau.

Rydym yn awyddus i benodi unigolyn rhagweithiol a hunangymhellol sydd â phrofiad mewn cynllunio busnes, rheoli risg a rheoli perfformiad sefydliadol i gynorthwyo'r Gwasanaeth i gyflawni ei amcanion sefydliadol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu, monitro ac adrodd ar gynlluniau a strategaethau statudol. Bydd hefyd yn rhoi cyngor arbenigol ar gynllunio adrannol, rheoli perfformiad a risg, gan gynnwys defnyddio dadansoddi data i sicrhau bod y Gwasanaeth yn effeithiol ac effeithlon, gan hyrwyddo gwelliant drwyddo draw.

Lleolir y swydd yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl; fodd bynnag, mae modd gweithio'n ystwyth drwy gyfuniad o weithio gartref ac o leoliadau eraill y Gwasanaeth. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

Sylwch fod sgiliau lefel 2 y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer y swydd hon; os nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar hyn ar adeg eu penodi, darperir cefnogaeth i'w gyflawni yn ystod y cyfnod prawf.

Sylwch fod y swydd hon yn amodol ar wiriad sylfaenol DBS a geirdaon boddhaol.

Mae rhagor o wybodaeth am y rôl a sut i ymgeisio ar gael yn Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr, sydd ar gael ar: [www.tangogleddcymru.llyw.cymru](www.tangogleddcymru.llyw.cymru)

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi**
**12:00 hanner dydd ar 30/06/2025**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.